# Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

**7/4/26**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Llinos Edwards (Is Gadeirydd), Beryl Griffiths, Lis Puw, Rhodri Jones, Alwyn Jones ac Arwel Ll Jones (eitem 3329 ymlaen) .

**Hefyd yn bresennol:** Alan Jones Evans (Cynghorydd Sir) a Huw Antur (Clerc a Swyddog Cyllid).

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

**3317 Croeso:** Fe groesawyd pawb i'r cyfarfod gan yr Is Gadeirydd, Llinos Edwards.

**3318 Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Alwyn Roberts, Dewi Jones, Euros Roberts, Heledd Jones a Huw Roberts.

**3319 Datganiadau o fuddiant:** Ni dderbyniwyd ddatganiad o fuddiant.

**3320 Cofnodion Cyfarfod Mawrth 2026:** Cadarnhawyd eu cywirdeb.

**3321 Materion yn codi / materion y Clerc:**

i. Grŵp Cynefin – Datblygiad Maes y Pandy: Ni dderbyniwyd ymateb pellach gan Grŵp Cynefin.
ii. Parcio ger Tŷ'n Ddol: Adroddwyd fod y Cyng Alwyn Jones a'r Clerc wedi trefnu i gyfarfod y pensaer Rhys Davies ar Ebrill 10fed i drafod y cynllun.
iii. Cronfa Cefnogi Cynghorau Cymuned: Derbyniwyd gwybodaeth bellach am y gronfa, a nodwyd offer cae chware, offer i Weithdy'r Saer neu ramp mynediad i'r Neuadd Bentref fel rhai prosiectau posibl.

**3322 Derbyn adroddiad Cynghorydd Gwynedd:** Derbyniwyd adroddiad gan y Cyng Alan Jones Evans, pryd y soniodd:

- Fod y gwli ger Ysgol O M Edwards wedi cael ei chlirio, a bod y sefyllfa yn cael ei monitro'n gyson.
- Fod y garreg fawr ar ymyl y ffordd ger y Singrug wedi ei diogelu.
- Fod y cwlfert ger Lloches Bws y Lôn yn cael sylw.
- Fod yr angen am fwlch ar Bont Lliw i gysylltu Llwybr Cei gyda Llwybr Tegid wedi cael ei ddwyn i sylw gweinidog Llywodraeth Cymru.
- Fod wyneb y ffordd rhwng Glynllifon a Ddolfach wedi cael sylw, a bod cais ar y gweill i Gyngor Gwynedd fabwysiadu'r ffordd.
- Fod y drafodaeth ar denant anaddas ym Maes y Pandy yn parhau, a bod cadarnhad wedi ei dderbyn mai'r Heddlu a chymdeithas dai Adra sy'n gyfrifol am drefniadau ac asesu addasrwydd gosod tai. Cytunwyd i wneud cais i'r Heddlu ac Adra i fynychu cyfarfod cyhoeddus yn y Neuadd Bentref i egluro'r sefyllfa a'r meini prawf gosod, ac i ateb unrhyw gwestiynau gan y trigolion.

**3323 Derbyniwyd adroddiadau'r is-bwyllgorau:**

1. **Pwyllgor Datblygu**:

a) Llwybrau Treftadaeth Llanuwchllyn - Adroddwyd fod rhai o bolion enwau taith Cwm Cynllwyd wedi eu gosod, a bod trefniadau yn eu lle i osod polion teithiau Peniel a Phenantlliw. Cytunwyd i ofyn i'r ysgol drefnu teithiau cerdded i'r disgyblion pan fydd y gwaith wedi ei gwblhau.

b) Prosiect Enwau Lleoedd: Rhoddwyd adroddiad o gyfarfod ar Fawrth 25ain pryd y cytunwyd i baratoi murlun i'w osod mewn man amlwg yn y Neuadd Bentref. Nodwyd fod tri artist lleol wedi mynegi diddordeb yn y gwaith. Cytunwyd fod angen ystyried y dull gorau o gyflwyno'r wybodaeth ar wefannau lleol.

2. **Pwyllgor Mynwentydd:** Nodwyd fod aelodau'r pwyllgor wedi cyfarfod ar Ebrill 1af i glirio a thacluso'r fynwent. Adroddwyd fod tendr i gynnal mynwentydd y pentref wedi ei dderbyn gan Sion Jones, ac fe gytunwyd i dderbyn ei gynnig am y cyfnod 2026-2028.

3. **Pwyllgor Asedau:** Nodwyd fod llechen yn rhydd ar lawr y Gilfach Goffa, a bod angen ei diogelu.

4. **Pwyllgor Bioamrywiaeth:** Adroddwyd fod y gwaith ar y goedlan ger y fynwent ar y gweill. Cytunwyd hefyd i brynu tybiau a blodau i'w plannu i harddu'r pentref.

5. **Pwyllgor Cyllid:** Nodwyd y bydd angen cyfarfod yn dilyn paratoi cyfrifon drafft i'r cyngor am 2025/2026.

**3324 Materion Ariannol:**

Cyflwynwyd Adroddiad Ariannol i'r cyngor, ac fe gymeradwywyd taliadau fel â ganlyn:

- Cyflog a threth incwm y Clerc.
- Anfoneb cytundeb glanhau y toiledau.
- Anfoneb nwyddau glanhau y toiledau.
- Anfoneb hysbyseb noson hyfforddiant deffib
- Anfoneb am atgyweirio'r toiledau cyhoeddus.
- Anfoneb am atgyweirio Lloches Bws y Lôn.
- Anfoneb tâl aelodaeth Un Llais Cymru am 2026/2027.

Nodwyd fod incwm y toiledau cyhoeddus am fis Mawrth yn £60.82.
Derbyniwyd diolchiadau am gymorth ariannol gan y cyngor gan sefydliadau lleol.

**3325** **Menter Gymunedol Llanuwchllyn:** Adroddwyd fod y fenter wedi prynu a gosod nifer o ddodrefn ac offer newydd i'r Eagles, ac hefyd wedi gosod Uned Gwefru Cerbydau Trydan yn y maes parcio, hyn gyda chymorth ariannol Pub Is The Hub, ac y bydd yr uned ar gael i'r gymuned gyfan.

**3326** **Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Adroddwyd fod gan y cwmni nifer fawr o brosiectau a gwasanaethau ar y gweill, ac y bydd y cyfarfod nesaf o Fwrdd Rheoli'r Cwmni ar Ebrill 20fed.

**3327** **Materion cynllunio:** Nid oedd materion cynllunio i'w trafod.

**3328 Gohebiaeth:**

i) Fforwm Adfywio y Bala a Phenllyn: Derbyniwyd gwahoddiad i'r cyfarfod nesaf o'r fforwm ar Ebrill 29ain.
ii) Heddlu Gogledd Cymru: Derbyniwyd gwahoddiad i gyfarfod yr Heddlu, ac fe nodwyd Ebrill 23ain ac Ebrill 30ain fel dyddiadau posibl.
iii) Cytunwyd i gydweithio gyda Ysgol Sul yr Awr Fawr i brynu a phlannu Cennin Pedr ger y Gilfach Goffa ddiwedd yr haf.
iv) Un Llais Cymru: Derbyniwyd copi o'u maniffesto ar gyfer etholiad Senedd Cymru.
v) Un Llais Cymru: Derbyniwyd copi o'u Rhaglen Hyfforddiant, a dywedodd y Cyng Llinos Edwards y byddai'n mynychu rhai sesiynau. Trafodwyd hefyd y syniad o gydweithio gyda chynghorau lleol eraill i drefnu hyfforddiant ar y cyd ar faterion fel Ymgysylltu Cymunedol.
vi) Un Llais Cymru: Derbyniwyd gwybodaeth am eu Gwobrau Cenedlaethol.
vii) Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2027: Derbyniwyd gwybodaeth am yr Ŵyl Gyhoeddi a gynhelir yn Llanidloes.
viii) Rheilffordd y Cambrian: Derbyniwyd llythyr yn tynnu sylw at y diffyg buddsoddi hanesyddol yn Rheilffordd y Cambrian.
ix) Parc Cenedlaethol Eryri: Derbyniwyd gwybodaeth am eu Cronfeydd Cymunedol.
x) Un Llais Cymru Meirionnydd: Derbyniwyd gwybodaeth am gyfarfod ar Ebrill 14eg.

**3329 Ystyried materion lleol y Cynghorwyr:** Nodwyd:

i) Fod dwr ar y ffordd yn parhau yn broblem ger Rhyd y Bod.
ii) Fod angen holi am gynnydd y bwriad i gyflwyno llinellau melyn yn y pentref.

**3330 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** Nos Fawrth 5/5/26 am 7.30pm yn y Neuadd Bentref.